



Ein cyf/Our ref EM/0505/19

Mr Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddMCD@cynulliad.cymru
[Copi at: Aelodau'r Pwyllgor CLAC](#)

28 Mehefin 2019

Annwyl Mick,

Bil Masnach – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Mehefin yn gofyn am eglurhad ynghylch pwynt a godais yn ystod yr ail ddadl yn y cyfarfod llawn ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) y Bil Masnach.

Fel y nodwch yn eich llythyr, nodais yn ystod y ddadl fod y gwelliannau diweddaraf i Fil Masnach y DU i bob pwrpas yn ehangu'r pwerau datganoledig. Nid oedd yn fwriad gennyf awgrymu nad oedd y gwelliant hwn yn ehangu pwerau Gweinidogion Cymru o dan y Bil. Fel y nodwch yn eich llythyr, nodais yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 10 Mai mai effaith y gwelliant yw ehangu pwerau Gweinidogion Cymru.

Rwy'n gobeithio bod yr ymateb hwn yn egluro'r pwynt yr oeddwn yn ceisio ei wneud.

Yn gywir,

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.